**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Glan y Mor**
**Y Caban**
**Ger/By Ysgol Myfenydd**
**Llanrhystud**
**Ceredigion**
**SY23 5AT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Glan y Mor

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Glan y Mor |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Rees-Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Angharad Rees-Jones |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 14 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Iau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18/07/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/01/2014 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 11/02/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Lleiafrif y plant sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| Lles | Da |
| Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir) | Digonol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

## Diffyg cydymffurfio

Rydym wedi rhoi gwybod i'r personau cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â darparu gwybodaeth a hysbysu’r swyddfa briodol yn yr achos gofal dydd lle mae newid i bersonau sy’n gofalu am blant yn y fangre cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol i wneud hynny.

- rheoliad 31 (2) (b)

Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Argymhellion

A1 Cryfhau trefniadau asesu er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud gwell defnydd o’r canfyddiadau i gynllunio’r camau nesaf yn y dysgu

A2 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu’n llawn ar ddeilliannau’r broses hunanwerthuso a blaenoriaethau’r cynllun gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau bwriadus wrth fynd ati i ddewis gweithgareddau. Maent yn eiddgar ac yn hyderus wrth ddewis adnoddau yn ystod y sesiynau rhydd. Er enghraifft, maent yn hapus i ddewis bocsys o adnoddau chwarae rôl gan wisgo hetiau dyn tân ac adeiladwr ac eraill yn dewis chwarae gyda doliau, rampiau a cheir. Mae mwyafrif y plant yn mynegi eu barn yn dda ac yn cyfrannu syniadau at weithgaeddau yn effeithiol, trwy greu map meddwl ar y cyd gyda’r ymarferwyr ar thema’r fferm. Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi a chyfathrebu eu hoffterau yn gyson wrth ddewis adnoddau. Mae bron pob plentyn yn teimlo’n hyderus i gofnodi eu teimladau wrth hunan gofrestri a’u diweddaru wrth i’w teimladau newid yn ystod y sesiwn.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn eiddgar ac yn ymdopi’n dda wrth wahanu wrth eu rhieni a’u gofalwyr. Mae llawer o’r plant yn dangos brwdfrydedd a balchder wrth weld eu ffrindiau yn cyrraedd y lleoliad trwy weiddi eu henwau yn hapus. Mae mwyafrif y plant yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth wrth ymarferwyr ac yn gwenu’n hapus wrth dderbyn stamp clôd am fod yn ddewr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn gyffrous wrth chwarae yn yr ardal allanol gan chwerthin a gweiddi yn uchel wrth rhedeg o’r trên pren ac yna chwarae gyda hŵpiau a thryciau yn y mwd. Mae bron pob plentyn yn teimlo ymdeimlad o berthyn o fewn eu hamgylchedd wrth weld eu gwaith creadigol yn cael eu harddangos. Mae perthynas hyfryd rhwng y plant a’r ymarferwyr. Maent yn gwenu at ymarferwyr wrth eu cyfarch yn y bore a phan yn derbyn canmoliaeth wrthynt yn rheolaidd.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn yn ystod eu chwarae rhydd ac yn gyfarwydd iawn gyda threfn ac arferion dyddiol. Mae bron pob plentyn yn cyd-chwarae yn arbennig o dda yn yr ardaloedd chwarae. Er enghraifft, maent yn chwarae gyda’u cyfoedion yn y cornel cartref gan ddefnyddio doliau a phramiau ac yn cymryd tro wrth chwarae gêmau bwrdd yn llwyddiannus. Maent yn rhannu adnoddau yn gyson. Mae’r rhan fwyaf yn gwrtais ac yn defnyddio moesau pwrpasol yn naturiol yn ystod amser byrbryd gan ddweud “diolch” wrth ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf o blant yn parchu eraill trwy gydymffurfio â rheolau. Maent yn dilyn rheolau a chyfarwyddyd wrth ymarferwyr i dacluso a gwneud llinell wrth fynd i gasglu eu byrbrydiau yn brydlon.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mwynhau ac yn ymddiddori yn eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn cyffroi wrth chwilota am drysor yn y twba tywod ac yn ymfalchio wrth greu cacennau mwd i ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn canu rhigymau a chaneuon syml yn y Gymraeg yn hwyliog. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y plant yn chwerthin yn hapus wrth ganu cân ‘pen, ysgwyddau, coesau, traed’ gan gymryd rhan yn frwdfrydig. Mae plant yn dyfalbarhau wrth ymgymryd â thasgiau, er enghraifft, wrth gydweithio i wneud cacennau mwd i’r ymarferwyr a chyflawni gêm teimladau yn ddeallus.

Mae bron pob plentyn yn datblygu medrau annibynnol priodol yn dda. Yn ystod amser byrbryd, mae plant unigol yn didoli cwpanau i’w cyfoedion. Mae bron pob plentyn yn casglu plât bwyd a’i ddychwelyd i’r bwrdd wrth y gegin ar ôl gorffen. Mae

llawer o'r plant yn gwisgo cotiau ac yn defnyddio cyfleusterau tŷ bach a golchi dwylo yn annibynnol. Mae bron pob plentyn yn adnabod eu henwau gan hunan-gofrestri a dethol eu teimladau yn hyderus ar y wal rhyngweithiol. Mae mwyafrif y plant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus wrth ddatblygu adnabyddiaeth o rifau, lliwiau ac adnabod geirfa mathemategol a ieithyddol yn fwriadus trwy chwarae rhydd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn gwrando'n astud ar yr ymarferwyr ac yn ymateb yn synhwyrol i gwestiynau ar stori 'Y Tri Mochyn Bach' gan gynnig syniadau am yr hyn sy'n digwydd nesaf. Fodd bynnag, dim ond ychydig o blant sydd yn dewis llyfrau o'r cornel ddarllen yn annibynnol yn ystod y sesiwn. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau ac yn sgwrsio yn synhwyrol gyda'r ymarferwyr i drafod gweithgareddau ac i ddatrys problemau syml. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd maent yn trafod faint o gadeiriau sydd angen i bob plentyn ac yna helpu i'w gosod yn drefnus ar gyfer amser cylch. Mae medrau llafar y rhan fwyaf o'r plant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref yn dda iawn. Maent yn hyderus wrth gynnig syniadau ac esboniadau mewn gweithgareddau torfol gan ddefnyddio ystod dda o eirfa. Yn gyffredinol, mae medrau llafar y rhan fwyaf sy'n newydd i'r iaith Gymraeg yn datblygu'n briodol. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i gyfarwyddiadau a chyfarchion cyfarwydd ac yn ymuno â chaneuon a rhigymau yn hyderus. Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y plant yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth ddefnyddio sialc i farcio tu allan a thrwy ymdrechu yn llwyddiannus i ysgrifennu llythrennau eu henwau ar ddarnau o waith celf.

Mae medrau rhifedd llawer o'r plant yn datblygu'n gadarn ar gyfer eu hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn adrodd rhifau i 10 gydag ychydig yn cyfrif ymhellach yn gywir. Maent yn dechrau cyfateb rhifau â gwrthrychau wrth ddefnyddio offer mathemategol yn effeithiol. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith mathemategol yn bwrpasol, er enghraifft trwy ddefnyddio 'trwm' ac 'ysgafn' wrth drafod pwysau offer adeiladu fel bricsen, brigau a gwair ar gyfer tŷ y moch bach. Mae llawer o blant yn medru didoli a grwpio data yn effeithiol trwy drefnu a chyfri deunyddiau naturiol yn yr ardal allanol. Maent yn cyfri faint o wrthrychau sydd ganddynt ym mhob grŵp a pha un yw'r mwyaf a lleiaf.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol da wrth gydsymud i ganeuon a defnyddio'r gwagle tu allan i redeg, neidio a thaflu. Mae medrau corfforol mân y plant yn datblygu'n addas, er enghraifft wrth ddefnyddio gafaelwyr i godi gwrthrychau o'r llwch lli a gludo botymau ac amryw o ddefnyddiau ar fwgan brain.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hyderus trwy ddefnyddio llechi cyfrifiadurol i ddewis apiau, chwarae gemau ac i dynnu lluniau yn effeithiol. Mae tua hanner y plant yn hyderus wrth ddefnyddio tegan rhaglenadwy o dan arweiniad oedolyn ac mae gweddill y plant yn cychwyn datblygu'r sgiliau yma'n briodol.

Mae llawer o blant yn datrys problemau'n fedrus, er enghraifft wrth awgrymu sut all yr heddwas achub y plant o'r gegin wrth chwarae yn yr ardal chwarae rôl. Mae llawer o blant yn galw ffeithiau i gof ac yn ymateb yn briodol wrth ymateb i gwestiynau a

dyfalu beth all ddigwydd nesaf. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus wrth beintio anifeiliaid y fferm yn ogystal â pheintio'n rhydd a chreu modelau allan o does yn annibynnol .

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu iechyd a diogelwch yn effeithiol. Mae bron pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatrig ac maent yn cofnodi damweiniau yn brydlon. Mae ganddynt weithdrefnau da yn eu lle ac maent yn gweithredu'r polisiau perthnasol yn fwriadus. Mae'r holl ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac o ganlyniad yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn petai ganddynt unrhyw bryderon am blant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid da ac yn golchi dwylo a gwisgo ffedog wrth baratoi bwyd. Yn ogystal, mae asesiadau risg yn cael eu diweddaru yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach a chadw'n heini yn llwyddiannus, er enghraifft mae plant yn derbyn amrywiaeth o fwydydd iach a diodydd maethlon gan ymarferwyr. Maent yn ymwybodol o alergeddau ac anoddefgarwch plant unigol tuag at fwydydd penodol ac yn diwallu anghenion dietegol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd gwerthfawr i blant fyw'n iach wrth fodelu a gwobrwyo'r plant am frwsio dannedd yn ddyddiol. Maent yn hyrwyddo gweithgareddau corfforol yn yr ardaloedd allanol ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant fod yn weithgar a medrus.

Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos a chynnes gyda'r plant ac maent yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn dilyn y polisi ymddygiad yn effeithiol ac yn manteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Er enghraifft, maent yn canmol y plant am ymateb i gwestiynau yn dda neu frwsio dannedd gan ddweud wrthynt "Waw ffantastig!" a "Da iawn, dyma docyn i ti, clap mawr!". Maent yn rhyngweithio'n bositif ac yn dangos sensitifrwydd tuag at blant yn gyson ac yn effeithiol drwy ddod lawr i'w lefel a thrafod neu dynnu sylw'r plant at rywbeth arall sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae systemau pwrpasol yn eu lle i gefnogi plant sydd ag anghenion addysgol ac mae'r lleoliad yn cydweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol fel therapyddion lleferydd yn rheolaidd. Rhoddir gwybodaeth buddiol i rieni am ddatblygiad eu plant trwy nosweithiau agored a sgyrsiau unigol anffurfiol. Mae gan ymarferwyr sgiliau cydweithio effeithiol a dealltwriaeth glir o anghenion emosiynol, ieithyddol a hoffterau'r plant. O ganlyniad diwellir anghenion y plant yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau annibynnol y plant. Er enghraifft, maent yn darparu'r cyfleoedd i blant 'nol eu cotiau a'u gwisgo ac yn rhoi cyfrifoldebau iddynt wrth ddosbarthu cwpanau i'w cyfoedion. Mae ymarferwyr yn cynllunio ardaloedd o ddarpariaeth barhaus yn effeithiol ac yn annog y plant i ddewis gweithgareddau ac adnoddau yn annibynnol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gadael y plant i helpu eu hunain i baent ac offer marcio yn y gornel creadigol ac yn caniatau iddynt ddewis offer adeiladu, chwarae 'rôl a adnoddau byd bach yn annibynnol..

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol**

Mae'r berthynas hyfryd a chyfeillgar sydd rhwng yr oedolion a'r plant yn sicrhau awyrgylch hapus a phositif o fewn y lleoliad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddyfalbarhad y plant wrth gwblhau tasgau ac yn eu cefnogi i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn fedrus yn unigol ac yn dorfol, sy'n ymestyn eu dealltwriaeth yn gadarn ac yn datblygu eu medrau meddwl a sgiliau datrys problemau yn effeithiol. Maent yn darparu llawer o gyfleoedd diddorol iddynt ddysgu trwy chwarae ymarferol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau sydd o dan gyfarwyddyd oedolyn a thasgau annibynnol y plant.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn cynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau buddiol sydd yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ar draws y meysydd chwarae a dysgu. Er enghraifft, trwy gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i blant gyfri a thrafod trefn rhifau yn ogystal â datblygu eu medrau iaith wrth chwarae rôl yn seiliedig ar stori Y Tri Mochyn Bach. Maent hefyd yn cynllunio'n fedrus i sicrhau cyfleoedd i blant drafod ac ail ddweud y stori yn ogystal â datblygu eu medrau meddwl a chyfleoedd i ddefnyddio geirfa amser fel yn gyntaf, wedyn ac yn olaf. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn dda ac yn sgwrsio yn naturiol gyda'r plant a defnyddiant strategaethau trochi iaith yn fedrus wrth gyd-chwarae gyda'r plant sy'n newydd i'r iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i blant ddefnyddio camerâu, recordydd llais, teganau rhaglenadwy ac apiau ar lechen electronig i gefnogi'u dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd medrau iaith, llythrenedd a chyfathrebu'r plant yn effeithiol, sy'n sicrhau eu bod yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn arsylwi a chofnodi cynnydd y plant o ran eu lles a medrau eraill yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr bob tro yn defnyddio deilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol sy'n diwallu anghenion y plant yn ddigon effeithiol.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant wrth roi cyfleoedd iddynt fod yn gyfeillgar â phawb a helpu ei gilydd yn ystod eu chwarae. Mae doliau a llyfrau yn yr ardaloedd dysgu yn dathlu amrywiaeth pobl a'u diwylliannau yn dda. Yn ogystal, mae cyfleoedd addas i'r plant yn ystod y flwyddyn i astudio amrywiaeth o ddathliadau fel Diwali a Blwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i'r plant arsylwi a gwerthfawrogi pethau byw ac i dyfu llysiau, ffrwythau a blodau yn yr ardd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae plant yn derbyn gofal ac addysg mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo annibyniaeth y plant yn effeithiol a'u hannog i ddysgu a datblygu medrau'n dda. Mae'r ardaloedd mewnol wedi eu trefnu i gynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un weithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae'r cyfleusterau buddiol yn bodloni anghenion y plant yn llwyddiannus gan gynnwys ardaloedd darllen, chwarae rôl yn ogystal â chyflenwad da o adnoddau digidol. Ceir amrywiaeth effeithiol o adnoddau ymhob ardal sydd o fewn cyrraedd y plant. Mae'r amgylchedd yn lliwgar, croesawgar a deniadol iawn a cheir arddangosfeydd da sy'n cyfoethogi iaith, mathemateg a gwaith creadigol y plant.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cadarn ar gyfer sicrhau diogelwch y plant. Mae ganddynt system camera, larwm a drysau clo a gofynnir i ymwelwyr fewngofnodi yn brydlon er mwyn sicrhau diogelwch y plant a'r ymarferwyr. Mae arweinwyr yn sicrhau

amgylchedd diogel ac addas gan baratoi ac adnewyddu asesiadau risg derbyniol a driliau tân rheolaidd. Maent yn gwirio a glanhau'r lleoliad yn rheolaidd er mwyn darparu amgylchedd glân a diogel. Mae cyfleusterau ymolchi a thŷ bach yn addas ac yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu.

Gwneir defnydd cyson o'r amgylchedd allanol gan ddefnyddio adnoddau naturiol a chynaliadwy wrth blannu a hefyd darpariaeth o adnoddau yn y gegin fwd ac offer ymarfer corff. Mae'r adnoddau tu mewn a thu allan o ansawdd da iawn, yn lân ac yn hygyrch i blant sy'n eu galluogi i wneud dewisiadau chwarae yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gweithio yn ddiwyd fel tîm i greu ethos positif, hapus a gofalgar trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymarferwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod bywyd a gwaith y lleoliad gan gynnwys cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu buddiol ar gyfer y plant. Yn ogystal, mae gan yr arweinydd weledigaeth glir sydd yn seiliedig ar ddarparu gofal o safon uchel a phrofiadau dysgu ysgogol ar gyfer y plant. Mae'n llwyddianus wrth gynnwys y pwyllgor, y gymuned a'r rhieni i greu tîm gweithgar ar gyfer gwella'r amgylchedd gofal a dysgu.

Mae gan arweinwyr drefniadau trylwyr ar gyfer recriwtio ymarferwyr. Mae gan pob un swydd ddisgrifiad clir ac maent yn gweithredu ar eu rolau yn gydwybodol. Mae arweinwyr yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol lle mae plant ac ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad bob blwyddyn yn addas ac mae pob aelod yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant pwrpasol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant datrys problemau a iaith a lleferydd yn ddiweddar er mwyn gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau'r plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau plant. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni, ymarferwyr, plant ac asiantaethau allanol yn dda fel rhan o'r broses. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hunanwerthuso effeithiol hyn wedi sicrhau gwelliannau amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft trwy wella ansawdd a defnydd o'r ardal allanol hyfryd i gyfoethogi dysgu'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad wedi gweithredu'n ddigon effeithiol ar yr argymhellion o'r arolygiad blaenorol gan gynnwys gwella ansawdd a defnydd o asesiadau ar gyfer cynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o grantiau a chyllid ar gyfer prynu adnoddau i gefnogi profiadau dysgu'r plant, i wella'r amgylchedd ac i ddarparu hyfforddiant perthnasol i ymarferwyr. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn gweithio'n ddiwyd fel tîm wrth gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod materion grantiau a threfnu cyfleoedd gwerthfawr i godi arian ar gyfer y lleoliad. O ganlyniad mae'r pwyllgor a tîm rheoli yn cydweithio yn dda ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus ac i roi cefnogaeth cadarn i'r ymarferwyr.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rheini trwy gynnal nosweithiau agored, rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau pwysig a rhannu profiadau'r plant trwy luniau ar amrywiaeth o gyfryngau i'r rhieni. Mae perthynas fuddiol gyda'r ysgol leol yn sicrhau bod plant yn trosglwyddo'n esmwyth. Yn ogystal, mae ymweliadau gan yr athrawes cyn iddynt adael y lleoliad yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2020